

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
22 Mehefin 2020 (Cyfarfod Zoom)**

Presennol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 24/2/2020.
5. Materion yn codi:
 - a. Nodwyd gyda siom yr wybodaeth a dderbyniwyd (dyddiedig 10/3/20) am Gais Cynllunio i drosi adeilad allanol i dŷ preswyl - adeilad Stabl Plas Gywair. **“Ym Mhwylgor Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri 4/3/20 penderfynwyd cyfeirio'r cais i CADW gyda'r bwriad o argymhell CANIATÁU gydag amodau “** (Mae ymrwymiad gan yr ymgeisydd i dalu i osgoi'r amod gwerthiant lleol.) Penderfynodd Parc Cenedlaethol Eryri hyn er i'r Cyngor Cymuned wrthwynebu'r cais.
 - b. Cais Ty'n Twll i osod 3 ffenest yn y to (12/3/20) – trafodwyd a chymeradwywyd trwy ffôn ac e-bost; derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Gwyn Roberts.
 - c. Mae manylion Cofrestr Claddu'r Fynwent erbyn hyn yn gyfredol.
6. Adroddiad Cynghorydd Gwynedd, Alan Jones Evans: amlinellodd y Cynghorydd sut y mae staff Cyngor Gwynedd yn rhoi llawer o amser i'r angen “Profi, olrhain, a diogelu” gydag Adran yr Amgylchedd yn arwain ac yn creu cyfundrefn effeithiol. Rhagwelir y bydd y drefn hon yn parhau am 18 mis. Adroddodd bod galw mawr ar y gwasanaethau gofal, nid yn unig i'r henoed ond hefyd i blant ac oedolion bregus. Er hyn, mae'r achosion o Covid 19 yng Ngwynedd gyda'r isaf yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae llawer iawn o staff y Cyngor yn gweithio o adref neu allan yn y maes. Mae llawer hefyd yn gweithio yn benodol yn y maes Gwasanaeth Covid.
7. **Materion ariannol:**
 - i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol. Derbyniadau: Praesept £2000. Taliadau: Dosbarthu prydau bwyd £75; Darparu ppe £100; Mynwent £500; Yswiriant £116.88
 - ii. Ystyriwyd y Cysoniad Banc am 2019-20.
 - iii. Ystyriwyd y gwahaniaethau rhwng cyfrifon 2019-20 â'r flwyddyn flaenorol.
 - iv. Derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a diolchwyd am y gwaith a wnaed o archwilio cyfrifon y Cyngor. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2019-20, gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/20.

8. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:

Cytunodd Cyngorydd Gwynedd i geisio cael gweithredu ar y materion canlynol:

- i. Mae angen trwsio Pont Rhosygwaliau eto, gan fod goblygiadau diogelwch mawr sefyllfa hyd yn oed yn fwy peryglus yr adeg hon oherwydd y llwythi coed sydd yn cael eu cario.
- ii. Nid yw'r grid gwartheg uwchben Bryniau Golau wedi ei thrwsio fel yr addawyd.
- iii. Mae angen sylw i'r wal wrth giât y fynwent yn Llangywer.

9. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a ddywedodd fod y gwaith o uwchraddio'r trydydd llawr yng Nghanolfan Henblas bron wedi ei orffen. Bydd 7 ystafell/swyddfa/gweithdy ychwanegol ar gael ar ôl gorffen y gwaith.

10. **Gohebiaeth:** Derbyniwyd diolch am gyfraniad ariannol oddi wrth Eisteddfod Powys, Theatr Bara Caws, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Cantref, Neuadd Llangywer, CFFI Meirionnydd, Eisteddfod Cylch Penllyn

11. **Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri:** Gwahoddodd Alan Jones Evans yr aelodau i anfon sylwadau ato i'w pasio ymlaen i sylw Warden Llyn Tegid. Y farn oedd bod angen ymatal rhag agor y mynediad at y llyn ar sail iechyd a diogelwch trigolion a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'n anodd rheoli niferoedd, yn anodd rheoli ymddygiad; mae'n anodd sicrhau glendid gatau a pheiriant talu; mae'r toiledau'n eithaf cyntefig ac nid oes dŵr poeth yno; byddai angen mesurau uchel o lanhau ar y toiledau hyd nes y bydd y perygl o'r Covid wedi cilio o ardal Gogledd Cymru.

12. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/9/2020; manylion y cyfarfod yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid 19.